

3.25

CERDD YR HOGEN GOCH:

—◆◆◆—
Ton—"Wait for the Waggon."
—◆◆◆—

Rhyw noswaith eis i garu,
Oddeutu deg o'r gloch
A nesais at y ffenestr
Lle'r oedd fy hogen goch,
A churais yno'n ddystaw,
Rhag ofn i deulu'r tŷ
Fy nghlywed yno'n curo
Am f'anwyl hogen gu.

BYRDWN.

Da genyf gwmni, da genyf gwmni,
Da genyf gwmni gwiw fy hogen goch.

A hithau a'm hattebodd,
A d'wedodd yn y fan,
"O pwy sydd yna'n curo,
A'i chwi fy anwyl Ddan?
Mae'n hyfryd geni'ch gwelod,
Fy machgen anwyl tlws,
Arhoswch haner munyd,
Agoraf i chwi'r drws.

"O ewch i lawr i'r gegin,
Eisteddwch wrth y bwrdd,
Cawn damaid gyda'n gilydd,
Y teulu sydd i ffwrdd."
Y bwrdd oedd wedi'i hulo
A phob rhyw ddewis faeth,
A'm hogen goch 'rwy'n coelio
I'r gegin gefn yr aeth.

A daeth a'r jug a'r brandi,
A'i osod ar y bwrdd,
A dywedodd, "Yfweb, cariad,
Y teulu sydd i ffwrdd."
Ac yfed wnes o hono
Nes gwel'd ei waelod o,
Ac 'roeddwn wedi meddwi,
A hanner fyn'd o'm co.

Dechreuais dori'r llestri,
 A gwneuthur twrw mawr,
 Y bwrdd a phob peth arno
 'O'ent bentwr ar y llawr ;
 Am hogen goch yn gwaeddi.
 A finnau ar fy hyd,
 Yn meddwl mewn gwirionedd
 Ei bod yn ddiwedd byd.

Yn nghanol hyn o helynt,
 Daeth rhywun at y gloch,
 A thynai hono'n erwin,
 Nes gwneud i'm hogen goch
 Fy llusgo fel rhyw furgyn,
 A'm rhoi yn nghwt y glo
 A'r olwg arni, coeliwch,
 Fel hogen goch o'i cho'.

I fyny'r aeth dan redeg,
 A chrynu, at y drws,
 A'm gadael yn y glo-dwll—
 Ei bachgen anwyl tlws ;
 A phwy oedd yno'n disgwyl,
 Ond meistr, gŵr y tŷ,
 Ai'r hogen goch yn gochach,
 A'r meistr yn fwy du.

Gofynodd iddi'n Saes'neg,
*"Where have you been so long ?
 Upon my word and honour
 There must be something wrong,"*
 I lawr y daeth i'r gegin,
 A'i olwg fel y fall
 Pan welodd fod ei ddodrefn
 Y naill ar draws y llall.

Ac yna aeth i chwilio
 Pob congl yn y fan,
 Agorodd ddrws y coal vault
 Ac yno gwelodd Dan :
 Gofynodd i'm yn Saes'neg,
'Now, man, what brought you there ?'
 Dywedais inau wrtho,
"My lass with the red hair."

I fynu'r aeth dan regi
 I'mofyn am bolice,
 A thyngu ar ei enaid
 Y cawn i bedwar mis ;

A daeth y boby yno,
 Ac arall gydag e',
 Ac aethant a fi'n feddw,
 Na wyddwn i ba le.

Ond yn y boreu dranoeth
 Edrychais yn bur syn,
 Gofynais im' fy hunan,
 O! bobl beth yw hyn?
 Deallais yn y foment
 Mae caru'm hogen goch
 Am dygodd i'r fan hono,
 Sydd waeth na chwt y moch.

Ond toc mi glywn y ceidwad
 Yn galw, "*Come up, Dan;*"
 Dywedais inau, "*Yes, Sir,*
Directly if I can:"
 I fynu'r ês, fodd bynag,
 A safais yn y box,
 A'm hogen goch a welwn,
 A'i meistr, *Mr Fox.*

Ar ol rho'i llw i'r tystion,
 A'u holi oll ac oll,
 A hwythau'n d'weud fy meiau,
 Heb adael gair yn ngholl,
 Gofynnodd Mr Raffles,
 "*Now, what hve you to say?*"
 Dywedais inau, "*Nothing,*
Only I wish to go away."

Dyweddodd Mr Raffles,
 A'i wyneb fel y wal,
 "*For one month into Kirkdale,*
Yes, let you off I shall,
Unless you like to pay me
Two Sovereigns and the cost.
 Dywedais inau wrtho
 Fod hyny yn bur dost.

Ond telais hwy bob dimau,
 Er mwyn fy hogen goch,
 A d'wedais wrth yr Ustus,
 "*My man, yn iach y bo'ch;*"
 Ac aethum a phriodais
 Fy hogen goch 'r un pryd,
 A'm hogen goch a minnau
 Sy'n anwyl fyw yn nghyd.

HEDYDD LON.

TON.—“*Mentra Gwen.*”

'Rwy'n disgwyl am y dydd,
Hedydd lòn, hedydd lòn,
O ddwyfron galon rydd :
Hedydd lòn
A phan y daw mi ganaf
A thithau am yr uchaf,
Yn llawen i'r cynhauf,
Hedydd lòn, hedydd lòn,

Mae'r gweiriau ar y llawr,
Hedydd lòn, hedydd lòn,
Paham na's ceni 'nawr ?
Hedydd lòn.
Ai'th gywion bach a laddwyd,
A'th nyth gan ddyn wasgarwyd,
A'th fron gan hiraeth dorwyd ?
Hedydd lòn, hedydd lòn,

Os galar ddaw i ti,
Hedydd lòn, hedydd lòn,
I ddyn pa sail o'i fri ?
Hedydd lòn,
Os gofid ddal mewn gaf'el,
Un esgyn fry mor uchel,
B'le ffy'r ymdeithydd isel,
Hedydd lòn, hedydd lòn.